Carwyn Jones AM/AC
Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
a'r Gweinidog dros Fusnes y Cynulliad a Chyfathrebu

Counsel General and Leader of the House
also Minister for Assembly Business and
Communications

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis – Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

13 Awst 2007

Annwyl Dafydd

RHEOLIADAU CYFYNGIADAU MEWNFORIO AC ALLFORIO (CLWY'R TRAED A'R GENAU) (RHIF 2) (CYMRU) 2007

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu y bu'n rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dwyn i rym yng Nghymru Reoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 2) (Cymru) 2007 yn unol â gweddill y DU. Cafodd y Rheoliadau hyn eu llunio a'u gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Awst 2007 a daethant i rym am 3:45 o'r gloch ar 13 Awst 2007.

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith yng Nghymru Benderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd 2007/554/EC sy'n dirymu Penderfyniad 2007/552/EC y Comisiwn ac sy'n gwneud mân-welliannau ond gan gadw'r cyfyngiadau newydd ar anfon o'r DU anifeiliaid byw sy'n gallu dal Clwy'r Traed a'r Genau a'r cynnyrch sy'n deillio ohonynt, gan gynnwys cig, cynnyrch llaeth, deunydd genetig a sgil-gynhyrchion. Mae'n rheoliad yn ei gwneud yn drosedd anfon o Gymru anifeiliaid byw o deulu'r fuwch, y ddafad, yr afr a'r mochyn sy'n gallu dal Clwy'r Traed a'r Genau. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn drosedd mewnforio anifeiliaid byw sy'n gallu dal y clefyd, gan adlewyrchu'r ffaith bod Penderfyniad y Comisiwn yn rhwystro gwledydd eraill yr UE rhag anfon anifeiliaid o'r math i'r Deyrnas Unedig. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn drosedd anfon o Gymru:

- Gig ffres;
- Cynnyrch cig;
- Llaeth;
- Cynnyrch llaeth;
- Semen, ofa ac embryonau;
- Crwyn; a
- Gwahanol sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Correspondence.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

sy'n tarddu o rywogaethau sy'n gallu dal y clwy, oni bai fod y cynnyrch yn cydymffurfio ag amodau penodol o safbwynt y dyddiad cynhyrchu a'r mathau o brosesau a ddefnyddiwyd.

Mae'n rhaid i gynnyrch sydd yn cydymffurfio â'r amodau ac y gellir o'r herwydd eu hallforio fod â thystysgrif iechyd swyddogol gan filfeddyg pan gânt eu hanfon i Aelod-Wladwriaethau eraill o fewn yr UE. Caiff yr amodau ar gyfer allforio i Drydydd Gwledydd eu pennu gan y ddwy ochr felly bydd yn rhaid i unrhyw gynnyrch a all gael eu hanfon o Gymru o dan y Rheoliadau hyn hefyd fodloni'r amodau mewnforio a bennir gan y wlad sy'n eu mewnforio. Nid yw'r rhan fwyaf o wledydd sy'n mewnforio yn derbyn cynnyrch o'r DU ar hyn o bryd.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud hi'n drosedd i unigolion fynd allan o'r wlad yn eu bagiau personol unrhyw rai o'r cynnyrch y mae'r Rheoliadau yn berthnasol iddynt. Mae Aelod-Wladwriaethau eraill yn cyflwyno mesurau ar gyfer atal pobl rhag mewnforio cynnyrch o'r DU yn eu bagiau personol.

Caiff y Rheoliadau eu diwygio er mwyn adlewyrchu newidiadau ym Mhenderfyniad y Comisiwn wrth i'r sefyllfa o ran Clwy'r Traed a'r Genau ddatblygu a chânt eu dirymu pan gaiff trefniadau rheoli'r Gymuned Ewropeaidd eu llacio.

Mae'n ofynnol i'r Rheoliadau ddod i rym ar unwaith er mwyn cael gwneud mân-welliannau ond gan gadw'r cyfyngiadau ar anfon o Gymru anifeiliaid byw sy'n gallu dal Clwy'r Traed a'r Genau a'r cynnyrch sy'n deillio ohonynt gan gynnwys cig a chynnyrch llaeth, deunydd genetig a sgil-gynhyrchion. Daeth Rheoliadau cyfatebol i rym yn Lloegr ar 13 Awst 2007 ac yn yr Alban, ar 10 Awst 2007. Mae deddfwriaeth debyg yn cael ei pharatoi yng Ngogledd Iwerddon i ddod I rym ar 13 ac 14 Awst 2007. O'r herwydd, er mwyn sicrhau cysondeb o ran camau gorfodi ar draws y DU mae'n rhaid torri'r rheol 21 diwrnod, fel y gall y Rheoliadau ddod i rym ar unwaith. Yn ogystal, byddai'r risg sydd ynghlwm â pheidio â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith ar unwaith yn golygu y byddai Cymru o dan anfantais gan na fyddai pwerau gorfodi priodol ar gael i'w defnyddio yng Nghymru.

Golyga hyd a natur gymhleth y Rheoliadau ynghyd â'r angen i'w rhoi ar waith ar unwaith yng Nghymru fod y Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi barnu na fyddai'n rhesymol nac yn ymarferol disgwyl iddynt gael eu llunio'n ddwyieithog o fewn yr amserlen dan sylw. Serch hynny, bydd cyfieithiad Cymraeg o'r Rheoliadau ar gael maes o law.

Nid oes proses ymgynghori wedi mynd rhagddi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ac nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i wneud ychwaith yn sgîl amserlen dynn yr Offeryn. Fodd bynnag, mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi ac mae hwn wedi cael ei osod, ar y cyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, a Chris Reading, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.